

Taflen Wybodaeth StatinWISE i Gleifion - Astudiaeth Enetig Ddewisol

ID Prosiect IRAS: 197990



Ymchwiliad Seiliedig ar y We o Sgil-Effeithiau **STATIN**

GWAHODDIAD I GYMRYD RHAN MEWN ASTUDIAETH ENETIG DDEWISOL AR StatinWISE

Treial clinigol ar hap i asesu a yw triniaeth atorvastatin yn achosi mwy o symptomau yn y cyhyrau na phlasebo

Diolch am gymryd rhan yn StatinWISE

Cyn i chi benderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth enetig ddewisol hon, mae'n bwysig i chi ddeall pam fod yr ymchwil yn cael ei wneud a beth mae'n olygu. Cofiwch gymryd eich amser i ddarllen y wybodaeth yn ofalus a'i drafod gyda ffrinidiau neu berthnasau os dymunwch. Yr ydych yn hollol rydd i benderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth sampl gwaed ddewisol hon neu beidio. Os dewiswch beidio â chymryd rhan, ni fydd hyn yn effeithio ar y gofal a gewch gan eich meddyg teulu.

Os oes unrhyw beth heb fod yn glir, neu os hoffech fwy o wybodaeth, ffoniwch Nyrs Ymchwil StatinWISE ar **[rhowch fanylion]**

Mae StatinWISE yn cael ei gydgordio gan Uned Treialon Clinigol Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain a'i gyllido gan raglen Asesu Technoleg Iechyd (HTA) y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR)



Ymchwiliad Seiliedig ar y We o Sgil-Effeithiau STATIN

1. Pam ein bod yn cynnal yr astudiaeth enetig ddewisol hon

Nid ydym yn deall yn llawn y cysylltiad rhwng cymryd statins a gwayw a phoenau, ond fe all fod cyswllt â marcwyr genetig gwaelodol. Nod yr astudiaeth hon yw pennu a yw poen yn y cyhyrau sydd, fe dybir, wedi ei achosi gan statins, yn gysylltiedig â marcwyr genetig. Gall gwybod am y cysylltiad hwn gyfarwyddo'r ffordd y rheolir y defnydd o statins yn feddygol yn y dyfodol.

2. Pam y gofynnwyd i mi gymryd rhan?

Gofynnwyd i chi gymryd rhan am eich bod yn cymryd rhan ar StatinWISE. Mater i chi yw penderfynu cymryd rhan neu beidio. Os nad ydych eisiau cymryd rhan, ni fydd eich cyfranogiad ar StatinWISE yn newid, ac ni fydd hyn yn effeithio ar eich gofal meddygol yn y dyfodol.

3. Beth fydd yn digwydd os cymeraf ran?

- Bydd y nyrs ymchwil ym mhractis eich meddyg teulu yn cymryd un sampl gwaed bychan (9ml, 2 lwy de)
- Caiff eich sampl ei labelu gyda rhif adnabod treial yn unig a'i anfon i labordy ym Mhrifysgol Lerpwl i'w ddadansoddi heb ddim o'ch gwybodaeth bersonol.

4. Beth yw manteision posib cymryd rhan yn yr astudiaeth?

Bydd yr astudiaeth ddewisol hon yn caniatáu i wyddonwyr ddeall a yw genynnau pobl yn dylanwadu ar symptomau cyhyrau a ddaw i'w rhan gyda statins. Gall y sampl gwaed a rowch gael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer astudiaethau ymchwil eraill. Gall hyn helpu i gyfarwyddo'r ffordd y rheolir y defnydd o statins yn feddygol yn y dyfodol.

5. Beth yw risgiau posib cymryd rhan yn yr astudiaeth?

Yn anaml iawn y mae prawf gwaed yn arwain at unrhyw gymhlethdodau difrifol. Nid yw risgiau cysylltiedig â'r prawf hwn yn wahanol o gwbl i unrhyw brawf gwaed rheolaidd a gewch fel rhan o ofal clinigol arferol. Efallai y cewch beth cleisio o ganlyniad i dynnu'r gwaed.

6. A fydd fy rhan yn yr astudiaeth yn cael ei gadw'n breifat?

Yr unig bobl gaiff edrych ar eich gwybodaeth bersonol fydd y tîm sy'n gyfrifol am yr astudiaeth yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain a'r awdurdodau rheolaethol fydd yn bwrw golwg i weld bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal yn iawn. Ni fydd practis y meddyg teulu yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â'r labordy geneteg. Ni fydd canlyniadau'r dadansoddiad genetig yn cael eu rhannu gyda chi, eich meddyg teulu na thîm StatinWISE.

I gysylltu â'r Uned Treialon Clinigol yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain:

e-bost: statinwise@lshtm.ac.uk

Rhadffôn: 0800 014 7410

Post: StatinWISE study, LSHTM, Room 180, Keppel Street, London WC1E 7HT.